**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS Cadeirydd,
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.wales

09 Rhagfyr 2021

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu atoch i hysbysu'r Pwyllgor am y bwriad i roi ein cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a chyflwyno Rheoliadau Plaladdwyr (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2022 erbyn 18 Ionawr.

Mae llythyr wedi cyrraedd oddi wrth Victoria Prentis AS, y Gweinidog Gwladol dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd yn gofyn am ein cydsyniad ar gyfer y ddeddfwriaeth hon. Mae'r Rheoliad yn ymdrin â pholisi datganoledig ac yn effeithio ar Gymru. Gallai'r Rheoliad gael ei wneud gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu pwerau. Bydd y Rheoliad yn effeithio ar Gymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg wedi'i anfon i Weinidogion yr Alban am eu cydsyniad.

Caiff y Rheoliadau eu gwneud gan arfer y pwerau a roddir gan adran 8(1) Deddf Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (c.16) i unioni diffygion yng nghyfraith yr UE a gedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill (yn arbennig o dan adran 8(2)(a) yn sgil ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu deddfwriaeth uniongyrchol ddiangen yr UE sydd wedi'i dargadw sy'n rhan o'r drefn ar gyfer rheoleiddio cynnyrch amddiffyn planhigion ("PPP") a'r lefel gweddillion uchaf ("MRL"), fel y gall y trefniadau hyn barhau i weithredu'n effeithiol ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu. Mae'r dirymiadau hyn yn ymdrin â deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddaeth i rym tuag at ddiwedd y cyfnod gweithredu (nad oedd OSau Ymadael cynharach yr UE yn ymdrin â nhw). Dônt i rym ym Mhrydain Fawr trwy ddarpariaethau pontio yn OSau Ymadael cynharach yr UE a'r cofrestrau statudol cenedlaethol. O'r herwydd, nid oes angen mwyach y ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir a gaiff ei dirymu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mai egwyddor cyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai cyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael eu gwneud a'u diwygio yng Nghymru, y tro hwn oherwydd aliniad polisïau y tair llywodraeth a manteision amlwg, o gofio'r pwnc, gwneud y gyfraith sy'n ymwneud â Chymru, Lloegr a'r Alban o fewn un offeryn, rwyf o'r farn nad deddfu ar wahân ar gyfer Cymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o sicrhau'r newidiadau angenrheidiol na chwaith y defnydd doethaf o adnoddau Llywodraeth Cymru o gofio'i blaenoriaethau eraill pwysig.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith SeneddClimate@senedd.wales a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig SeneddEconomy@senedd.wales er eu gwybodaeth.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change